CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Wener y 7fed o Chwefror 2025 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Cyng. Rhys Parry, Meirion Roberts, Ken Griffiths, William Rees, Aled Rees, Huw T Jones (Clerc) ac un aelod o'r cyhoedd.

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Cadeirydd y Cyng Rhys Parry.

   Roedd ymddiheuriadau gan Cyng James Brunton, Sion Evans, a Cyng Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) .

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Rhagfyr 2024 ar gynnig Cyng Ken Griffiths a'i eilio gan Cyng William Rees.

4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd –** darllenwyd ymateb Cyngor Gwynedd yng nghyswllt cael drych ir briffordd o gyfeiriad Llyn Bwtri. Cyfeiriwyd at y gweithdrefnau/canllawiau a ddanfonwyd gan Gyngor Gwynedd.
   Yng nghyswllt problem dwr o flaen Ty Alys, darllenwyd e-bost gan Katie Wilkes. Addawodd Cyng William Rees gael gair efo Sion Wilkes o'r Adran Briffyrdd am hyn i geisio datrys y broblem, gan fod yn amlwg mai ffordd sydd wedi ei ail-tharmacio yw'r broblem.
   b) **Mynwent yr Eglwys** – nid oedd unrhyw ddiweddariad. Gwelwyd y dylid ymdrin a hyn ym mis Mai. Nodwyd lythyr am sefyllfa y fynwent newydd, a threfnwyd i'r Cynghorwyr ymdrin a hyn, a byddent yn darparu y deunyddiau.
   **c)** **Difibrillators** – Addawodd Cyng Cyng Aled Rees gael golwg ar y ddau di-fib, sef ger y toiledau a ger Cwrt.
   d) **Menter y Glan** – adroddwyd y diweddaraf am y cais am arian i dalu am ddau gamera CCTV. Addawodd Cyng Meirion Roberts gael y camerau.
   **e)** **Bwrdd Gwybodaeth ger yr arhosfan bws** – roedd hwn i law gan Cyng Meirion Roberts, a byddai trefniadau i'w osod.
   f) **Baw cwn ar y Marian –** roedd arwydd i'w gynllunio gan blant yr Ysgol, a chytunwyd ar gyfrannu gwobrau o gyfanswm o £35. Addawodd Rhys gysylltu gyda'r ysgol.
   g) **Archwiliad Blynyddol asedau'r Cyngor** – nodwyd yr asedau, ac y byddai archwiliad erbyn y cyfarfod nesaf
   h) **Llythyr Liz Saville Roberts AS** – ynglyn a credyd pensiwn/taliad tanwydd ayyb. Roedd copi o'r llythyr wedi ei roi ar yr hysbysfwrdd. Awgrymwyd gyfeirio hyn at Age Cymru i weld os allent wneud gwaith o hyrwyddo hyn.

i) Effeithiau andwyol y dreth etifeddiaeth ayyb – a chais i Arweinydd Cyngor Gwynedd. Cadarnhwyd fod hyn wedi ei wneud gan Cyngor Gwynedd, a bod cefnogaeth gan y Cyngor i'r pryder difrifol am hyn.

j) **E-bost y Cyngor Cymuned** - byddai e-bost newydd Cyngorpennal@outlook.com yn cael ei ddefnyddio erbyn y cyfarfod nesaf.

5**. Materion Cynllunio**

**NP5/75/272 –** *Tir ger Ty Gwyn, Pennal*

*Codi un ty fforddiadwy a un ty marchnad agored y chreu mynedfa newydd gerbydol, mannau parcio a throi a gwaith cysylltiedig*

Adroddwyd fod hwn wedi ei ddosbarthu, a bod mwyafrif y Cynghorwyr yn gefnogol i'r cais.

6.**Materion Cyllid**

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, (7.02.25), sef Cyfri Cyfredol £12,221.56, Cyfri Cadw £2670.63.

b) Anfonebau/taliadau – ar gynnig Cyng Meirion Roberts a'i eilio gan Cyng Aled Rees, cytunwyd i dalu y canlynol;

   Archwilio Cymru (archwiliad 2022/23) £200

c) Roedd ceisiadau am arian i law, a phenderfynwyd ar gynnig Cyng Aled Rees a'i eilio gan Cyng William Rees fel a ganlyn;

   - Ambiwlans Awyr Cymru – ystyried hyn yn y cyfarfod nesaf, ar ol cael gwybodaeth am yr Adolygiad Barnwrol.
   - Theatr Bara Caws – penderfynnu peidio cyfrannu

d) Hawlio treuliau gan Gynghorwyr – cadarnhwyd eto nad oedd neb o'r Cynghorwyr am hawlio

**7. Gohebiaeth**

- Nid oedd dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru i law. Cadarnhwyd fod cynllun hyfforddiant y Cyngor Cymuned ar y wefan.
- Nodwyd gohebiaeth Siân Gwenllian AS ynglyn a'r ymgyrch i sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor. Cytunwyd i gefnogi.
- Nodwyd gohebiaeth y Parc Cenedlaethol yn cadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 o'r 1af Mehefin 2025 a oedd wedi ei ddanfon i bob cartref.
- Nodwyd e-bost Cyng James Brunton ynglyn ag olion cerbyd ar y gwair ger Pont Caer. Roedd hyn mewn llaw.

8**. Unrhyw fater arall.**

a) Nodwyd fod caead bin baw cwn ar Tower Road wedi torri
b) Roedd coeden wedi cwympo ar y llwybr cyhoeddus ger Cefn Crib – ger y giat mochyn,
c) Roedd pont ar y llwybr cyhoeddus rhwng Cefn Crib a Penmaen Isa angen sylw.
d) Roedd giat ar y llwybr rhwng tir Gyllellog a Talgarth angen sylw – nodwyd fod angen giat mochyn yno.
e) Roedd angen sylw i'r llwybr cyhoeddus rhwng tir Gyllellog a'r Ynys -ger y nant.
**f)** Roedd pont ar y llwybr dros y nant yn Cwm Sylwi angen sylw.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Fercher 12fed Mawrth 2025 yn y Ganolfan, Pennal am 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.00pm.